Rhif 192 RHAGFYR 2014 – IONAWR 2015 40c

# Gwyliedydd

Synod Cymru


CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD




# Nadolig

'R Iesu gaed yng ngwres y gwair, gyda'r saer
gyda'r seren ddisglair;
un gwiw i'n byd anniwair
a'r Iesu'n gwireddu'r Gair.

*– Robin Hughes*



Pob bendith i Julie ac Elwyn Roberts, ar eu priodas yng Nghadeirlan Bangor. Mae Elwyn yn aelod yn Salem, Rhyd y Foel ac yn fab i Mr a Mrs Roberts, Tan'Rogo, Llanddulas



**Pob bendith hefyd i Edward a Brioni ar eu priodas. Mae'r hanes yn *Capel Ni* – Ebeneser, Trefor**



Festri Capel Pendref, Dinbych ar ei newydd wedd. Gweler ***Capel Ni*** – Dinbych

**Nadolig Llawen**
**a Blwyddyn Newydd Dda**
**i holl gyfranwyr a**
**darllenwyr y Gwyliedydd.**
**Diolch yn fawr i chi**
**i gyd. – *Robin a Ffion***



***Ydych chi wedi cael eich dyddiadur ar gyfer 2015?***

Dyma ddyddiad pwysig i'w nodi!

**16 Mai 2015**

**Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd**

**PERERINDOD 2015 – COFIO'R PARCH JOHN EVANS EGLWYSBACH, 1840–1897**

Diwrnod Arbennig yn Eglwysbach

Siaradwr gwadd:

**Dr R.TELFRYN PRITCHARD**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r trefnydd:
Robin Jones, Bethel (01248 670140)

**CROESO I BAWB**



# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 192**
**RHAGFYR 2014 - IONAWR 2015**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn; 40c y copi; 6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW
18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk


***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU: 5 IONAWR, 2015**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru"**


Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


**Wrth i'r *Gwyliedydd* fynd i'r wasg, clywsom y newydd trist am farwolaeth y Parchedig E H Griffiths a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.**

**Diolch yn fawr iawn i Ysgol Sul Bethel, Prestatyn am y lluniau hyfryd sydd i'w gweld ar y clawr.**

### *Cyfarchion y Tymor*

Dymuna'r Parch. Ddr O E Evans a Mrs Margaret Evans anfon eu cyfarchion cynhesaf i'w holl gyfeillion yn Synod Cymru. Dymunwn i chi i gyd Nadolig dedwydd gyda phob bendith yn ystod y Flwyddyn Newydd.

# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Dychmygwch yr olygfa: canol haf, min nos cynnar; dwy ferch fach yn gorwedd ochr yn ochr yn eu gwlâu; mam yn eistedd yn y canol rhyngddyn nhw; yr haul yn dal i dywynnu drwy'r llenni ysgafn. Ar ôl dweud "Gentle Jesus, meek and mild" (hynny yw "Iesu tirion"), mae'r tair yn canu. Gwrandewch ar y geiriau: "Away in a manger, no crib for a bed..."

Dyna'r olygfa yn aml yn ein tŷ ni yn ystod fy mhlentyndod cynnar. Byddem yn canu carolau'n hapus iawn drwy gydol y flwyddyn! Efallai mai dyna a enynnodd ynof gariad arbennig at garolau'r Nadolig, sy'n parhau hyd heddiw. Pan symudais i'r gwaith Cymraeg fel gweinidog, roedd 'na fyd newydd o garolau i'w darganfod a'u dysgu – cyfoeth oedd yn hollol ddieithr i mi cyn hynny. A chefais ddarganfod traddodiad y Plygain, yng Nghapel Lloc yn Sir y Fflint – wel, dyna ryfeddod!

Gwych o beth, felly, yn fy marn i, yw ein bod ni, yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, yn cael cyfle yr Adfent a'r Nadolig yma i rannu cyfoeth traddodiad y Plygain yn ehangach. Mae hyn yn digwydd trwy gyfrwng llyfryn dwyieithog a ysgrifennwyd gan dîm Rhwydwaith Dysgu Disgyblion a Gweinidogaethau Cymru (Delyth, Amy a Luke) ar gyfer y Cyfundeb i gyd (ac yn wir, i unrhywun). Tynnir sylw yn arbennig at y modd y mae carolau'r Plygain yn canolbwyntio ar thema ymgnawdoliad yr Iesu.

"A daeth y Gair yn gnawd" (Ioan 1:14). Does gennym ni ddim syniad wrth gwrs sut roedd yr Iesu'n edrych, yn faban, yn blentyn nac yn ddyn, ond ar hyd y canrifoedd mae artistiaid wedi ceisio cyfleu rhywbeth o'i natur trwy eu celfyddyd. Fel bodau corfforol, un o'r ffyrdd rydym ni'n deall y byd yw trwy'r corfforol – dyna pam y mae delweddau yn bwysig inni. Rhywbeth arall i edrych ymlaen ato yn y flwyddyn newydd yw'r cyfle cyffrous a gawn i fwynhau'r Casgliad Methodistaidd o Gelfyddyd Gyfoes, fydd yn cael ei arddangos yn Wrecsam o 19 Ionawr tan 26 Mawrth 2015.

Wrth ddathlu'r Geni, deuwn yn ymwybodol hefyd fod yr ymgnawdoliad yn parhau drwy'r flwyddyn i gyd, bob blwyddyn ers genedigaeth yr Iesu, ac y bydd yn parhau am byth. Mae'n parhau ym mywyd ei eglwys, corff Crist ar y ddaear, yn mynd ymlaen efo'i waith ac yn cadw sibrwd ei ymgnawdoliad o yn fyw. Ac mae'n parhau ym mywydau ei ddilynwyr, yr unigolion sy'n aelodau corff Crist, sef chi a fi. Yng ngeiriau'r santes Teresa de Avila, nid oes gan Grist gorff ar y ddaear yn awr ond eich corff chi, dim dwylo ond eich dwylo chi, dim traed ond eich traed chi a thrwy eich llygaid chi y mae Crist yn edrych yn dosturiol ar y byd.

Dyma ystyr a neges hollbwysig yr ymgnawdoliad. Dyma neges ac ystyr y Nadolig. Nadolig Llawen a bendithiol i chi i gyd.

## Gair gan Delyth am Fyw Ben i Waered, 'Y Plygain – traddodiad i'w rannu'

Mae'r adnodd yma yn rhan o gyfres o ddeunyddiau ar gyfer grwpiau bychain yn dwyn yr enw **Byw Ben i Waered** (Living Upside Down), enw sy'n cydnabod fod y thema o fyw bywyd â'i ben i waered i'w gweld yn gyson yn nysgeidiaeth Iesu. Y bwriad yw gweld pethau trwy lygaid Duw a gweithredu ar y pethau sy'n wirioneddol bwysig i ni fel disgyblion.

Mae llyfryn y Plygain ar ffurf pedair astudiaeth, yn seiliedig ar bedair carol sydd yn adlewyrchu thema ddisgwylgar yr Adfent, drwy edrych ar natur yr hwn rydym yn disgwyl amdano pan ddaw Duw yn yr ymgnawdoliad, a sut y mae'n weddus i ninnau ymateb pan ddaw penllanw'r aros. Ar ddiwedd pob astudiaeth ceir cwestiynau i ennyn trafodaeth fywiog a heriol ar y thema ac ar gyfer rhoi ffydd ar waith yn ein bywydau ac o fewn ein cymunedau.

Beth am gynnull grŵp bychan i gyfarfod yn rheolaidd drwy'r Adfent i drafod a gweddïo gyda'ch gilydd? Neu efallai yr hoffech ystyried cynnal gwasanaeth yn seiliedig ar garolau'r plygain lle gallwch ganu'r carolau fel cynulleidfa a defnyddio'r astudiaethau hyn yn sail i fyfyrdodau.

Gallwch lawrlwytho'r adnodd o wefan Synod Cymru:
**www.synodcymru.org.uk**
neu archebu copïau **am ddim** o'r llyfryn gan Delyth Wyn Davies, Swyddog Dysgu a Datblygu, ar 07799 902576 neu daviesd@methodistchurch.org.uk

# Fforwm Cenhadaeth Fyd-Eang yr Eglwys Fethodistaidd

gan y Diacon Stephen Roe


Cefais y fraint o gynrychioli Synod Cymru yn y Fforwm Cenhadaeth Fyd-eang ddechrau mis Hydref. Y prif siaradwyr oedd yr Esgob Leo o Multan ym Mhacistan, a'i wraig Sadof. Soniwyd am waith yr Eglwys ym Mhacistan lle mae Cristnogion yn cael eu herlid oherwydd eu ffydd. Mae'r Eglwys yn ceisio hybu cyd-ddealltwriaeth rhwng crefyddau; hyrwyddo llythrennedd ac ymwybyddiaeth o faterion iechyd drwy addysg; ymgyrchu yn erbyn masnachu mewn pobl; a rhoi cymorth ar ôl trychinebau fel llifogydd. Pwysleisiodd y ddau fod y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan grantiau gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, gan fynegi eu diolch i bawb sy'n cyfrannu at Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang.



*Mattia ac Elena Leoni a'u dau fab sy'n mynd i Rwanda am 3 blynedd*

Clywsom hefyd gan nifer o Bartneriaid mewn Cenhadaeth a oedd newydd ddychwelyd o dramor neu a oedd ar fin gadael. Roedd un yn mynd i Dde Affrica fel gweinidog, ac eraill i Rwanda fel athro Saesneg ac fel ffisiotherapydd. Un peth pwysig y gallwn ei wneud yw cefnogi eraill trwy weddïo. Os hoffech chi gael adnoddau a fydd yn eich cynorthwyo i weddïo dros sefyllfaoedd a phobl penodol, mae Swyddfa'r Eglwys Fyd-Eang yn paratoi cylchlythyr bob mis yn cynnwys storïau Partneriaid mewn Cenhadaeth o gwmpas y byd. Mae croeso i chi gysylltu â fi os hoffech dderbyn copi (am ddim). Mae'r Llawlyfr Gweddi Methodistaidd hefyd yn cynnwys awgrymiadau bob dydd ar gyfer ein gweddïau.

## Llyfr fydd yn destun trafod brwd




Mae llyfr newydd wedi'i gyhoeddi am John Williams Brynsiencyn – enw sy'n parhau i fod mor fyw yn ein cof fel cenedl. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf credai mai ei ddyletswydd oedd recriwtio bechgyn ifanc i ymuno â'r Fyddin, ac oherwydd hynny cafodd ei alw'n Herod ac yn sant. Llyfr lloffion o gyfrol yw ***Gwn Glân a Beibl Budr*** gan yr awdur poblogaidd, **Harri Parri**. Mae wedi casglu ffeithiau, lluniau, llythyrau, cofnodion ac atgofion ynghyd am y gŵr sy'n parhau i fod yn destun trafod brwd heddiw, gan geisio dod i adnabod y person tu ôl i'r wyneb cyhoeddus. Cyhoeddir gan Wasg y Bwthyn. Pris £9.95.

# Y RHYFEL OEDD I FOD I DDIWEDDU POB RHYFEL

gan Ken Owen



Dyma lun o'r Preifat Edward Jones, yn enedigol o Lysfaen, a laddwyd ar 21 Ebrill, 1918, yn ddim ond 20 oed. Roedd yn ewythr i Eileen Davies, aelod ffyddlon o Horeb a Disgwylfa. Roedd Edward yn aelod yng nghapel Mynydd Seion, yr Eglwys Fethodistaidd, Llysfaen.



Ymunodd â'r Lluoedd Arfog yn 1916 a chael ei anfon i'r ffosydd yn Ffrainc. Tra ar faes y gad, ysgrifennodd Edward (Uncle Ted neu Teddy i'r teulu), lythyrau a chardiau at ei deulu – yn Saesneg gan fod swyddogion y fyddin yn darllen ei lythyrau cyn caniatáu eu hanfon. Anfonodd gardiau Nadolig hefyd ym 1916 a 1917.

Derbyniodd y teulu neges i'w hysbysu am ei farwolaeth ac yna lythyr swyddogol yn cadarnhau eu colled. Rhoddwyd Edward i orffwys ym Mynwent Filwrol Contay yn Ffrainc. Yn nes ymlaen, derbyniwyd llythyr mewn llawysgrifen gyda siec am 12s. 6c. sef gweddill yr arian oedd yn eiddo iddo, ar ôl talu costau. Wedi i'r rhyfel ddod i ben, anfonwyd "Ceiniog y Brenin" at bob teulu ym Mhrydain a'r Ymerodraeth a ddioddefodd golled o ganlyniad i'r rhyfel. Bwriad teulu Edward Jones yw cyfrannu'r holl eitemau a'r dogfennau i amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol yng Nghaernarfon, i gofio am Edward a'r holl fechgyn a laddwyd.



*Ceiniog y Brenin*

Yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*, holwyd tybed pwy oedd y pregethwr y soniwyd amdano mewn rhifyn o'r *Gwyliedydd Newydd* gan mlynedd yn ôl, ym mis Tachwedd 1914. Diolch yn fawr i'r **Dr R. Telfryn Pritchard** am ei ateb diddorol.

Yr 'efengylydd o Gapel Garmon' ger Betws-y-coed oedd yr hynod Griffith Jones a roes flynyddoedd o wasanaeth fel blaenor a phregethwr ar Gylchdaith Llanrwst cyn ac ar ôl Diwygiad 1904/05.

Fel blaenor, bu'n fugail gofalus ei braidd a chredai'n angerddol y dylid gofalu am y plant a'r bobl ifainc, a'u dysgu mewn oedfa a chyfarfodydd arbennig iddynt yn yr wythnos i werthfawrogi trysor y Beibl. Nid rhyfedd iddo gael ei alw'n 'Apostol y Plant'. Ac nid rhyfedd chwaith iddynt hwythau yn aml fod ar ben y rhestr yn yr arholiadau. A hoffai hefyd iddynt wybod am arwyr y ffydd tu allan i Gymru – pobl fel Gipsy Smith a Lax o Poplar.

Yn 'Y Cydymaith', cylchgrawn chwarterol Cylchdaith Llanrwst, Mai-Gorffennaf 1905, ceir teyrnged i wasanaeth nodedig Griffith Jones gan y Parch Peter Jones-Roberts oedd yn ymadael â'r Gylchdaith. Iddo ef roedd Griffith Jones yn ŵr arbennig, a theimlai bob amser yn well o gael bod yn ei gwmni. O ran natur, roedd braidd yn encilgar a chaed trafferth i'w gael i ddod ar y Plan, ac ar y dechrau mynnai ymddangos arno ond fel Cynghorwr. Ond yn fuan daeth galw mawr am ei wasanaeth, a phawb yn edrych ymlaen at ei ddyfodiad. Pregethai ar Gylchdeithiau eraill hefyd fel Blaenau Ffestiniog, Conwy, Abergele, Bangor a Thregarth. Gofynnwyd iddo arwain mewn gweddi mewn llawer cyfarfod, a bu hir sôn am ddylanwad ei anerchiad grymus yn y Seiat Fawr yn ystod Cyfarfod Taleithiol Tywyn 1904.

Er na chafodd fawr o fanteision addysg ffurfiol, roedd yn ŵr tra diwylliedig, a hoffai ddarllen llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg. Barn pawb a gafodd y fraint o'i adnabod oedd mai dyn o ddifrif ydoedd yr annwyl Griffith Jones – ar dân gan gariad at ei Waredwr a'i gyd-ddyn, ac yn rhodio'n barhaus mewn gweddi gyda Duw.

### Y Cyfarchiad (Colect o Lyfr Gwasanaeth yr Eglwys Fethodistaidd)

Nefol Dad, a ddewisaist Fair Forwyn i fod yn fam i'n Harglwydd a'n Gwaredwr: llanw ni â'th ras, fel y bo inni ym mhob peth dderbyn dy ewyllys sanctaidd a llawenychu gyda hi yn dy iachawdwriaeth, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

# Caplan y Clwb Pêl-droed

gan y Parchedig Marc Morgan



*Marc a rhai o'r chwaraewyr*


Yn ei erthygl ddiddorol *Y Gorau - Erioed* (Gwyliedydd Hydref-Tachwedd 2014), mae Euron Hughes yn sôn am yr amddiffynnwr caled Peter Hart sydd erbyn hyn yn ficer yn Cannock ac yn gaplan gyda CPD Walsall. Mae amryw o gyn-chwaraewyr eraill hefyd yn gaplaniaid gyda thimoedd pêl-droed ac erbyn hyn mae disgwyl i bob tîm pêl-droed sydd yn chwarae yng Nghynghreiriau Proffesiynol Lloegr a'r Alban fod â chaplan. Mae hyn yn cynnwys Casnewydd, Dinas Caerdydd ac wrth gwrs prif dîm Cymru, Yr Elyrch (Abertawe) sydd â dau gaplan sef Kevin Johns ac Eirian Wyn. Yr elusen sy'n gyfrifol am y gwaith hwn yw *Sports Chaplaincy UK*.

Mae'r elusen yn ceisio cael caplan ym mhob clwb pêl-droed sydd yn chwarae yn Uwch Gynghrair Cymru ac eisoes mae rhai gan dimoedd Dinas Bangor, Aberystwyth a'r Drenewydd. Mi wn i hynny am taw fi yw caplan tîm pêl-droed Y Drenewydd, gwaith rwy'n ei wneud yn wirfoddol ers 5 mlynedd.

Beth, meddech chi, y mae caplan tîm pêl-droed yn ei wneud? Yn fy mhrofiad i, bydd y caplan ar gael nid yn unig i'r chwaraewyr ond i bawb sy'n gysylltiedig â'r clwb, boed yn chwaraewyr, swyddogion, cefnogwyr, stiwardiaid / gwirfoddolwyr neu hyd yn oed deuluoedd y chwaraewyr! Aelodau sy'n berchen clwb pêl-droed Y Drenewydd yn hytrach nag unigolyn, felly mae yna naws teuluol i'r clwb. Rwyf gyda nhw pan fydd hi'n adeg dathlu a phan fydd rheswm i dristáu.

Dyma ddau hanesyn am brofiadau a gefais fel caplan y clwb yn ystod y tymor diwethaf. Pan ymwelodd un o dimoedd y De â Pharc Latham i chwarae yn erbyn y Drenewydd, sylwais wrth iddynt gynhesu i fyny cyn y gêm fod y chwaraewyr yn gwisgo crys-T gyda'r geiriau *Pray for Josh* arnynt. Deallais mai mab bychan un o'r chwaraewyr oedd Josh a'i fod yn ddifrifol wael â meningitis mewn ysbyty yn Abertawe. Sefydlwyd rhwydwaith gweddi a oedd yn cynnwys yr eglwysi yma yn Ardal Glannau Maelor. Braf yw gallu dweud bod Josh wedi gwella yn well na'r disgwyl a'i rieni, trwy gyfrwng trydar, yn diolch i bawb am eu gweddïau.

Ar achlysur arall, gofynnwyd imi, am fy mod yn gaplan y clwb, a fuaswn yn arwain angladd bachgen 21 oed, un o gyn-chwaraewyr y tîm ieuenctid, a laddwyd mewn damwain car ychydig ddiwrnodau cyn y Nadolig y llynedd. Pan oeddwn yn y gêm ar ddydd San Steffan y daeth ei daid ataf i ofyn hyn imi – yn eu galar roedd y teulu wedi colli fy rhif ffôn ond gwyddai'r taid y byddai'n fy ngweld yn y gêm. Mae'r caplan ar gael bob amser i bawb sy'n gysylltiedig â Chlwb Pêl-droed Y Drenewydd.



Tra wrthi'n traddodi yn rymus
Fe sylwodd y Parch Nico Demus
Fod pry copyn go fawr
A'i ben at i lawr
Yn clymu ei we yn ei fresus.
– *RJ*

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Margaret a Trevor Williams sydd wedi colli eu hannwyl fab, Andrew, yn 36 oed. Brawd annwyl i Kevin ac ŵyr i Mrs Jane Jones.

**DIOLCHGARWCH**
Dydd Llun Diolchgarwch cafwyd cyfarfodydd undebol bendithiol iawn yn Eglwys Pensarn. Diolch i'r rhai o Eglwys Preswylfa a gymerodd ran. Mwynhawyd anerchiad hwyliog ac addysgiadol iawn gan y Parchedig Gerwyn Roberts, Llanrwst.

**GWELLHAD BUAN**
Pob dymuniad da i Mrs Eirwen Jones sydd wedi cael dwy lawdriniaeth yn ddiweddar. Braf ei gweld yn ôl ym Mhreswylfa.

**ER COF AM VERA ROBERTS**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu'r ddiweddar Miss Vera Roberts a fu farw yn 94 oed. Ganwyd Vera yn Eglwysbach ac roedd yn efaill i'r ddiweddar Mrs Enid Owen. Ar ôl marw ei thad, symudodd i fyw i Forfa Conwy gyda'i mam. Bu'n aelod ffyddlon yn y Tabernacl, Conwy. Yna daeth Vera i fyw i'r Gyffordd a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar ym Mhreswylfa. Roedd Vera yn foneddigaidd iawn a bu'n gymwynasgar tuag at lawer yn y Gyffordd a Chonwy. Roedd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Preswylfa dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig R. Ifor Jones, Mr Merfyn Davies a Mr Wyn Davies. Yr organydd oedd Mrs. Jane Jones.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Pisgah, Rhiwlas

**CROESAWU'R CADEIRYDD**
Ar 28 Medi daeth Cadeirydd y Synod, y Parchedig Jennifer Hurd atom i gynnal gwasanaeth. Edrychwn ymlaen at gael ei chwmni eto.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Gynradd Rhiwlas yn y capel a hyfryd oedd gweld llond y sêt fawr o blant yn mwynhau dathlu'r Diolchgarwch a chynulleidfa niferus wedi dod ynghyd.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Tabernacl, Llanfyllin

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â'r Parchedig Gwyndaf Richards ar farwolaeth ei chwaer yn Llanbrynmair. Fel ardal a chymuned rydym yn meddwl amdanoch yn eich tristwch.

**CYFEILLION DRWS AGORED**
Daeth cynulliad da ynghyd yng nghyfarfod agoriadol ein tymor newydd ac, yn dilyn defosiwn byr dan arweiniad y Cadeirydd, Rhoswen Charles, cafwyd sgwrs gan y Parchedig Mary Dunn, Llanfair Caereinion, dan y teitl 'Fy Stori, Ei Stori Ef'. Siaradodd yn syml ac yn deimladwy am ei thaith drwy ffydd. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr iawn. Cynhaliwyd ein Swper Diolchgarwch blynyddol ar 1 Hydref a diddanwyd yr aelodau a'u cyfeillion gan Sarah Carpenter, a gyflwynodd raglen hyfryd o ganeuon.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Cynhaliwyd Te Prynhawn llwyddiannus iawn er budd Gweithredu Dros Blant, dan ofal Decia a Keith Blacker, gyda chymorth Mair, Rhoswen, Sheila, Noreen, Sandra a Pam. Gwnaethpwyd elw o £243.65.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am wellhad llwyr i Enid Evans, Glascoed.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhaliwyd Bore Goffi Blynyddol Cymorth Cristnogol yr ardal yn Festri Eglwys Myllin Sant yn ddiweddar a chodwyd £200 at yr elusen. Roedd stondinau yng ngofal Hazel Jones, Myra Price, Rhoswen Charles, Ann Ellis, Margaret Blainey a Mona Hughes.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd oedfaon Diolchgarwch eleni yng Nghapel Pendref a chymerwyd rhan gan gyn-aelodau'r Ysgol Sul Undebol a hefyd gan blant yr Ysgol Sul bresennol sydd yng ngofal Eleri Llwyd a Rhian Lloyd Evans. Cafwyd sgwrs ddifyr ac amserol gan y cyn-Brifathro Roy Griffiths. Yr organydd oedd Eldrydd Jones. Yng nghyfarfod yr oedolion pregethwyd gan y Parchedig Dilys Jones, yr Amwythig. Cyflwynwyd hi gan y Parchedig Gwyndaf Richards a chyfeiriodd at ei gwaith fel gweinidog yn yr Amwythig yn awr a'i gwaith fel cenhades yn Ghana. Yr organydd oedd Pauline Page Jones.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Capel y Tabernacl ar 9 Hydref dan lywyddiaeth y gweinidog, y Parchedig Gwyndaf Richards. Dangosai taflenni ariannol Drws Agored fod £240 wedi'i roi i siaradwyr ac elusennau ac roedd gweithgareddau Gweithredu Dros Blant wedi codi £839. Ail-etholwyd y swyddogion gan ddiolch iddynt am eu gwaith.

**CYMDEITHAS Y BEIBL**
Dymuna'r Grŵp Gweithredol lleol ddiolch i bawb a gefnogodd y Bore Goffi a gynhaliwyd yn Festri Eglwys Myllin Sant gan lwyddo i godi dros £100. Cyflwynwyd arian dau flwch casglu hefyd a danfonwyd £210 i bencadlys Cymdeithas y Beibl.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Horeb, Llanrwst

**ER COF AM CEIRIOG JONES**
Bu farw Mr Ceiriog Jones yn Ysbyty Llandudno ar 23 Medi. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu ei fywyd yng Nghapel Horeb ar 30 Medi. Bu Ceiriog yn aelod ffyddlon yn y capel. Fe'i ganed yn fferm y Lodge, Dinbych, a bu'n filfeddyg uchel ei barch yn Llanrwst am flynyddoedd maith. Fel eglwys, estynnwn ein cydymdeimlad at ei briod Rona a'r teulu oll.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn adferiad iechyd buan i **Mrs Margaret Foulkes** sydd wedi bod yn yr ysbyty yn dilyn codwm. Dymuniadau gorau hefyd i **Mr a Mrs Albert Jones**, **Mrs Mary Hughes**, **Mrs Elsi Jones** a **Mrs Margaret Hughes**. Gobeithio y byddwch i gyd yn teimlo'n gryfach maes o law.

**SWPER CYNHAEAF**
Cafwyd swper cynhaeaf llwyddiannus iawn gyda'n cyd-aelodau yn eglwysi rhyddion Llanrwst, yn ysgoldy Capel Seion ar nos Wener, 18 Hydref.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Pontrobert

**GWELLHAD**
Rydym fel aelodau yn falch o weld Ogwyn Davies yn parhau i wella ar ôl ei lawdriniaeth.

**SUL YR OFALAETH**
Hyfryd oedd cael cwmni aelodau o wahanol gapeli i ddathlu deng mlynedd ers cychwyn yr Ofalaeth. Croesawyd pawb gan Mr John Ellis, Llanfair Caereinion, ac ef hefyd roddodd yr anerchiad. Aelodau Pontrobert a gymerodd y rhannau dechreuol: Bronwen Gwalchmai, Bryan Jones, Tegwyn Jones, a deuawd hyfryd gan Casi ac Anni. Diolchwyd i Joyce Ellis am ei gwasanaeth fel ysgrifennydd am ddeng mlynedd; cyflwynwyd rhodd iddi gan Buddug Bates. Cyflwynwyd sgrôl gan Norman Roberts i'r Parchedig Peter Williams am ei gyfraniad fel Gweinidog Bro. Diolchodd y Parchedig Peter Williams i bawb am bob cymwynas. Gwenan Jones oedd yr organydd a Llinos Jones oedd wedi trefnu'r blodau.

**PARTI PEN-BLWYDD**
Dathlodd un o'n haelodau sef Mair Jones, Nantlle, ei phen-blwydd yn 90 oed gyda pharti yn Henllan Llangynyw. Mae Mair wedi bod yn aelod ffyddlon a

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

gweithgar ar hyd y blynyddoedd, ond oherwydd gwaeledd ei gŵr, Gwyn, yn methu mynychu'r oedfaon yn ddiweddar.

**CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH**
Cymerwyd rhan gan blant yr ysgol leol, dan arweiniad eu prifathrawes Mrs Catherine Parry a'r athrawon eraill. "Ail Gylchu" oedd eu thema. Mrs Mererid Lewis o Ddolanog fu'n sgwrsio â'r plant a chafwyd ymateb hwyliog ganddynt. Roedd y casgliad yn mynd i "Water Aid". Cawsom hefyd wasanaeth diolchgarwch dan arweiniad Mr John Ellis; diolchwyd iddo gan Bryan Jones. Cyfeiliwyd gan Sharon Parry a threfnwyd y blodau gan Llinos Jones.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Llinos a Bryan Jones, Tynywig, a'r teulu, sydd wedi colli perthynas ifanc yn ddiweddar.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Horeb, Croesoswallt

**ER COF AM BLODWEN MORRIS**
Ychydig ddyddiau ar ôl dathlu ei phen-blwydd yn gant oed, bu farw Mrs Blodwen Morris. Roedd Mrs Morris yn caru'r "pethe", yn ddarllenwraig ac yn hoff o farddoniaeth. Roedd yn aelod ffyddlon yn Horeb a chyn hynny yn Hermon. Cydymdeimlwn â'i phriod, Mr Trevor Morris, a'r teulu oll.

**GWAELEDD**
Anfonwn ein cofion at Mrs Mary Davies, sydd wedi bod yn yr ysbyty a hefyd at ei brawd, Mr Llewelyn Roberts, sydd yn gaeth i'w gartref.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein cyfarfod diolchgarwch am y cynhaeaf yn Seion eleni, o dan arweiniad Mr Geraint Pritchard. Roedd y capel wedi'i addurno'n hardd. Miss Nerys Pritchard oedd yn cyfeilio ar yr organ.

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Ail-ddechreuwyd cyfarfodydd y Gymdeithas gyda swper wedi ei baratoi gan chwiorydd Seion a daeth Sara Carpenter o Benybontfawr i ganu amrywiaeth o ganeuon. Ar ôl rhannu blodau a ffrwythau'r Diolchgarwch i'r aelodau hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi, gwerthwyd y gweddill gyda'r elw yn mynd i elusen Alzheimers.

Bu cyfarfod yn Horeb ar Hydref yr 20fed gyda Tom Davies yn llywyddu. Croesawyd Enys Davies o Ddyffryn Clwyd atom i siarad am hen feddyginiaethau yn defnyddio planhigion a'r defnydd a wneir o blanhigion i liwio defnyddiau.


**SYMUD AELODAETH**
Dymuniadau gorau i Mrs Sheila Ann Thomas a'i merch Mrs Nia Williams, sydd wedi trosglwyddo eu haelodaeth, y naill i Lanelwy, a'r llall i Gaerdydd. Gwerthfawrogwn eu cyfraniad i bob agwedd ar fywyd yr eglwys ar hyd y blynyddoedd.

**PREGETHWYR**
Diolchwn i'r cyfeillion canlynol am eu gwasanaeth:- Y Parchedigion Dilys Jones, Gwilym O Jones, Raymond Hughes, Edwin Hughes, William Davies a Mr Glyn Williams. Drwg gennym am waeledd Mrs Mavis Williams - deuai atom i wasanaethu yn gyson. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ati.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno

**ORDEINIO**
Ar brynhawn dydd Sadwrn, Hydref 4ydd, 2014, cafodd y Parchedig Dylan Rhys Parry B.A. ei ordeinio a'i sefydlu yn weinidog Eglwys Unedig Llandudno ac Eglwysi Presbyteraidd Peniel, Deganwy, a Carmel, Conwy.



Un o Gaernarfon yw Dylan ac fe gwblhaodd ei hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg yr Annibynwyr Cymraeg, Bangor, yr haf hwn. Roedd yr ordeinio dan ofal y Parchedig Euros Wyn Jones ac estynnwyd deheulaw cymdeithas i Dylan gan gynrychiolwyr yr Ofalaeth, Cyfundeb Gogledd Arfon, yr Henaduriaeth, Undeb y Bedyddwyr a'r Eglwys Fethodistaidd, yn ogystal â Chyngor Eglwysi'r Dref. Pob dymuniad da i Dylan a bendith Duw arno yn ei weinidogaeth. Llawenhawn fod Duw yn galw rhai ifanc yng Nghymru i'r weinidogaeth.

*Gohebydd – Gwyddfid Prys Davies*

## Shiloh, Tregarth

**ER COF AM HERBERT OWEN GRIFFITHS**
Bu farw un o'n haelodau ffyddlon sef Herbert Griffiths, un o deulu niferus Cerrig Llwydion. Cydymdeimlwn â'i feibion Hefin, Alistair ac Elfed a'r holl deulu yn eu galar. Bydd yn chwith iawn heb Herbert ond diolchwn am fod wedi'i nabod.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Christine Morris Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Gareth o Parc y Bala.

**GWASANAETH Y DIOLCHGARWCH**
Thema ein gwasanaeth Diolchgarwch eleni oedd diolch am y Beibl ac yn arbennig am Mari Jones a Thomas Charles. Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Ddr Huw John Hughes atom. Gobeithiwn gael cyfle i ymweld â chanolfan newydd Cymdeithas y Beibl yn Llanycil yn fuan. Cawsom oedfa arbennig hefyd ar Nos Lun Diolchgarwch, yng ngofal y gweinidog, y Parchedig Philip Barnett.

**BEDYDD**
Ar 5 Hydref, bedyddiwyd Efnisien, mab bychan Gwenan a Dylan Efans, Garw, Tregarth, a brawd bach Siwnamis, Caleb Lleu ac Elysteg.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Salem, Rhyd-y-foel

**DIOLCHGARWCH**
Ar 19 Hydref gyda'r Parchedig Ifor Jones, Hen Golwyn, yn gwasanaethu cafwyd gwasanaeth o ddiolch am y Cynhaeaf. Addurnwyd y capel yn hardd gyda chynnyrch a blodau tymhorol. Braf iawn oedd cael cwmni aelodau capel Hyfrydle, Betws yn Rhos i gyd-addoli â ni. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd paned a chinio.

*Gohebydd – Siân Price*

## Bethel, Amlwch

**ER COF AM IDWAL OWEN**
Bu farw Idwal Owen yn 90 oed namyn pedwar mis. Bu ef a'i rieni'n aelodau ffyddlon ym Methel ar hyd eu hoes. Cynhaliwyd ei angladd dan arweiniad y Diacon Stephen Roe a thalwyd teyrnged iddo gan y Chwaer Eirlys Williams, Creigiau. Cydymdeimlwn â Doris, ei wraig, Gwenda a Rhian ei ferched, ei efaill Tecwyn a'r teulu oll.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Ddr. Jennie Hurd. Cawsom neges rymus. Diolchwyd iddi gan y Diacon Stephen Roe. Len Thomas oedd wrth yr organ. Yna mwynhawyd te dymunol, wedi ei drefnu gan y chwiorydd Catherine Hughes, Ruby Roberts a Menai Thomas.

*Gohebydd – Len Thomas*

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Daeth hi'n dymor y Nadolig unwaith eto ac fe fydd pawb bron, boed yn Gristnogion neu beidio, yn dathlu'r Ŵyl, rhai yn syber, eraill yn feddw, ond y mwyafrif llethol yn llawen a phriodol. Daw ein gair ni am ddydd geni Crist o'r Lladin NATALICIA a olygai'n llythrennol Ŵyl neu barti pen-blwydd. Dros y canrifoedd fe lithrodd y Lladin i'n hiaith gan ddod yn NATOLIC neu NATOLIG nes ei sefydlu yn Nadolig yn y bymthegfed ganrif.

Fe ddywed y rhai sy'n arbenigo yn hanes yr Iddewon nad oes sôn yn eu llenyddiaeth grefyddol am ddathlu penblwyddi. Yn wir mae lle i gredu yr ystyrid dathliadau o'r fath yn wrthun ac yn fodd i fawrhau'r hunan yn hytrach na rhoi mawl i Dduw y Creawdwr. Wrth i'r canrifoedd fynd heibio fe gefnodd yr Eglwys ar yr holl wyliau Iddewig gan sefydlu'r hyn rydym ni yn eu hadnabod fel y gwyliau Cristnogol a'r flwyddyn eglwysig. Nid oes unfrydedd wrth gwrs ynglŷn â phryd y dylid dathlu gŵyl y geni. Mae'r eglwysi Protestannaidd a Phabyddol yn derbyn 25 Rhagfyr fel y dyddiad cywir tra bo'r eglwysi Uniongred yn dathlu oddeutu 6 Ionawr. Mae yna hefyd rai sy'n dadlau, ar sail genedigaeth Ioan Fedyddiwr, a'r ddyddiad y cafodd ei dad Sachareias y weledigaeth am ei eni, a'r ffaith mai chwe mis yn ddiweddarach yr ymgnawdolodd Iesu Grist, mai 9 Hydref yw dyddiad cywir y Nadolig eleni. Os gwir hynny rydym oll wedi colli'r cwch megis, a'r hen ddywediad bod y Nadolig yn dod heb inni sylweddoli yn fwy gwir nag a dybiem.

Rydym yn rhydd i ddathlu'r Nadolig yn ôl ein dymuniad heddiw ond yn 1647 fe ddiddymodd y Werinlywodraeth y Nadolig yn gyfan gwbl. Yn ôl y Piwritaniaid pybyr, gŵyl gwledd y paganiaid oedd y Nadolig yn mawrygu'r duw Sadwrn fel duw-ddelw. Yn lle gwledda, bu'n rhaid i'r bobl ymprydio ar ddydd Nadolig! Does dim, meddai un Piwritan, yn llesteirio gwaith yr efengyl gydol y flwyddyn yn fwy na'r arferiad o gadw'r 25 Rhagfyr a'r dyddiau dilynol fel yr hyn a alwai ef yn ddyddiau'r eilun. Go brin y byddai'r mwyaf Piwritanaidd yn ein mysg heddiw yn barod i rwystro'r dathlu. Ond teg yw dweud hefyd bod yna elfennau o'r Satwrnalia nad oes iddynt le mewn dathliad Cristnogol.

Un nodwedd amlwg o'r tymor yw'r carolau a glywir ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r gair carol ei hun yn ddiddorol gan iddo darddu, mae'n bosib, o'r gair Groeg CHORAULES sef chwaraewr ffliwt ar gyfer dawnswyr. Yn Lloegr fe geir carolau ar gyfer pob tymor o'r flwyddyn, ond y duedd yma yng Nghymru oedd rhoi'r sylw mwyaf i'r Nadolig. Yr hynaf o bosib o holl garolau Cymru a Lloegr yw un y Brawd Madog ap Gwallter o Lanfihangel Glyn Myfyr nid nepell o Gerrigydrudion. Credir iddo berthyn i Urdd Sant Ffransis, sef y Brodyr Llwydion ac iddo gyfansoddi ei garol oddeutu 1250 yn ystod teyrnasiad Llywelyn ein Llyw Olaf. Canodd ar fesur cywrain y Rhupunt Byr Unodl Diacen gyda'i odlau hyfryd. Ceir yn y garol ddisgrifiadau trawiadol o Iesu Grist fel *Cawr mawr bychan / Cryf cadarn gwan / gwynion ruddiau.* Mae'r garol hon yn un gynnar iawn felly gan na ellir darganfod dim un yn y Saesneg cyn 1400.

Dros y blynyddoedd fe welodd y garol gyfnodau o lanw a thrai. Gan mai alawon syml a ddefnyddid wrth eu canu ni roddodd cerddorion uchel ael fawr o sylw iddynt. Canlyniad hyn oedd mai'r werin a fu'n gyfrifol am dros saith canrif am eu cadw'n fyw. Fe geir cyfuniad felly o alawon a geiriau a fu'n foddion i addysgu pobl, yn y cyfnodau prin eu Beiblau, am gyfoeth yr Hen Destament a'i broffwydi, ac i roi prif ddigwyddiadau'r Testament Newydd ar gof a chadw. Mentraf yn wylaidd i awgrymu mai'r werin sy'n gyfrifol o hyd am gadw rhai o'r carolau mwyaf hynod yn fyw. Gresyn na fyddai mwy o'n capeli ac eglwysi yn mentro ar gynnal Plygain yn ystod cyfnod y Nadolig. Fe geir arweiniad syml a chlir gan Arfon Gwilym a Sioned Webb ar sut i drefnu plygain yn y gyfrol *Hen Garolau Cymru,* a gyhoeddwyd yn 2006. Nid yw'n angenrheidiol fel y dywed Arfon Gwilym i gadw at yr holl ganllawiau. Yr hyn sy'n bwysig yw canu'r carolau mewn dull syml dirodres gan gofio bod y cyfan yn rhan o addoliad Cristnogol.

Diolch o waelod calon i bobl fel y Dr Enid P Roberts, Roy Saer, Rhiannon Ifans, Geraint Vaughan Jones, Meredydd Evans a Phyllis Kinney a llu o rai eraill am eu gwaith yn cofnodi hynt a helynt y garol Gymraeg. Tybed nad yw'n adeg bellach i gael astudiaeth swmpus o eiriau ac alawon carolau Cymru fel y bydd cyfoeth y canrifoedd yn cael sylw a'r cyfan yn cael eu diogelu ar gyfer y cenedlaethau o garolwyr y gobeithiwn a fydd yn ein dilyn.

## GWEITHREDU DROS BLANT

CYFRANIADAU HYDREF 2014

| | |
|---|---|
| Dienw – Capel Bethel, Mynydd y Fflint .................. | £10-00 |
| Rhodd Pen-blwydd Mrs Sheila Thomas .................. | £60-00 |
| Dienw .......................................................................... | £40-00 |
| Y Parchedig Ddr O.E.Evans a Mrs M. Evans.......... | £25-00 |
| Cyfanswm ................................................................. | £135-00 |

Diolch hefyd i bobl dda capel y Tabernacl, Llanfyllin, am gasglu'r swm anhygoel o £839-00. Ar ran Gweithredu dros Blant, mae'n bleser gen i gael diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad.

*Robin Jones*

# Y PLYGAIN gan Gron Ellis

Mae ffurf y dathliad unigryw hwn yn amrywio o ardal i ardal yng Nghymru. Ond, mi glywes sawl un yn dweud yn ddidwyll iawn – 'Wyst ti be', dydi Dolig ddim yn Dolig heb imi fod yn y Plygain ar fore'r Dolig.' Er imi fynychu sawl Plygain yma a thraw yng ngogledd Cymru, rhaid cyfaddef mai Plygain Sïon, Lloc, ger Treffynnon yw'r un mwyaf cyfarwydd imi. Ond, cyn imi gymryd yn ganiataol fod pawb ohonoch yn gyfarwydd â rhyw Blygain neu'i gilydd, beth am fentro i fyd cefndir y Plygain am foment.

Gwasanaeth Nadolig traddodiadol a gynhelir yn gynnar yn y bore yw'r Plygain. Fe'i cynhelid yn arferol rhwng tri a chwech o'r gloch y bore. Mae sawl dathliad am chwech o'r gloch bellach ac amryw wedi newid y drefn yn llwyr a'i gynnal fin nos, rywdro rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae cyfeillion Lloc yn ymfalchïo iddynt lwyddo i'w gadw yn ddathliad bywiog iawn rhwng chwech ac wyth ar fore'r Dolig. Credaf mai rhyw lond dwrn sydd yn gwneud hynny bellach a nifer ohonynt yn Sir y Fflint, e.e. Nercwys, Cilcain a'r Cymau a Sïon, Lloc, wrth gwrs.

Deilliodd y Plygain o'r offeren ganol nos, a gâi ei chynnal o'r bumed ganrif ymlaen. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er na chadwodd yr achosion anghydffurfiol yng Nghymru rai gwyliau eraill, fe gadwyd y Plygain gan lawer ohonynt. O ganlyniad fe gynhaliwyd y Plygain yn y capeli a'r eglwysi a hyd yn oed mewn cartrefi. Roedd dau beth yn nodweddu'r Plygain yng Nghymru gynt sef canu carolau a chario canhwyllau i oleuo'r addoldai. Credir fod y traddodiad o ganu carolau yn gryfach yn y Gogledd a'r traddodiad o gario canhwyllau yn gryfach yn y De.


Cyfansoddwyd cannoedd o garolau rhwng y 17 ganrif a'r 19 ganrif a rhai wrth gwrs yn perthyn yn arbennig i'r Plygain. Mae'r rhain yn garolau sy'n cwmpasu holl agweddau bywyd Crist. Ni allwn byth â gwneud cyfiawnder â holl hanes y traddodiad, felly rhaid bodloni ar ddisgrifio un enghraifft. Bydd rhwng cant a chant a hanner yn llenwi capel bach Lloc erbyn chwech ar fore Dolig ac, yn fras, dyma'r patrwm!

Yr unig drefniadau yw'r rhai rhagarweiniol a hynny dan arweiniad y gweinidog, sef y Parchedig Marc Morgan. Cawn groeso ganddo a chyfarchion am chwech o'r gloch yn brydlon. Y garol agoriadol yw 'Peraidd ganodd sêr y bore', ar y dôn 'Dwyfor' ac yna darllenir o Efengyl Luc – Luc 2 Ad. 8-20 – ac eleni Mrs Alma Roberts fydd y darllenydd. Yr ail garol fydd 'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef' ar y dôn 'Gwinllan'. Yna fe'n harweinir mewn gweddi gan y gweinidog. Yn dilyn y rhannau rhagarweiniol bydd y Plygain yn agored i gyfraniadau o'r gynulleidfa. Bydd parti'r Plygain o tua ugain ohonom yn cyfrannu o bryd i'w gilydd, gyda'r anthem boblogaidd 'Seren Bethlehem' yn uchafbwynt gan lawer am wyth o'r gloch y bore. Gron Ellis sy'n arwain a Deian Rhys yw'r organydd. Parti o'r fro yw bellach gyda Maryl Rees, mam Deian, wrth yr organ yn yr ymarferiadau. Diolch i Dewi a Gwyn am y trefniadau parcio ac i Elwyn Evans am y celyn! Ymfalchïwn hefyd yn ein casgliad elusennol a fydd dros £200 yn flynyddol. Eleni, Uned Llygaid Ysbyty Abergele fydd yr elusen. Pob bendith ar blygeiniau Cymru.

**Y Cadeirydd yn ymweld â'r gwahanol Ardaloedd**

| Rhagfyr | | Ionawr | |
|---|---|---|---|
| 7 | Glannau Maelor | 4 | Ar gael |
| 14 | Powys | 11 | Glannau Maelor |
| 21 | Ar gael | 18 | Llanrhaeadr |
| 28 | Ar gael | 25 | Llanrhaeadr |

***Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl. Sylwer fod Jennie ar gael ar rai o'r Suliau uchod – mae croeso i chi gysylltu â hi.***




# Defosiwn

gan y Parchedig J. BRYN JONES

## NEWID

Prin y byddai neb yn gwadu bod bywyd heddiw yn wahanol iawn i'r hyn a fu a bod newidiadau mawr yn ein byd. Wrth gwrs, os ydym yn byw yng nghefn gwlad neu mewn lle diarffordd, nid yw'r newid lawn mor amlwg ag ydyw i'r sawl sy'n byw mewn tref neu ddinas. Cawsom y fraint yn ddiweddar o wylio rhaglen deledu oedd yn olrhain bywyd a gwaith y bardd Dylan Thomas. Wrth sôn amdano'n symud o Gymru i Efrog Newydd, fe'm trawyd gan y sylw bod bywyd yn y ddinas fawr honno yn newid o awr i awr ac o ddiwrnod i ddiwrnod, gan mor brysur yw pethau yno – fel ym mhob dinas o ran hynny.

Os trown ein golygon at ddinasoedd y Dwyrain Canol, sefyllfa eithriadol o drist a welwn: lladd, dinistr a dioddefaint. Ffoaduriaid yn eu miloedd, yn gorfod wynebu newid byd a dianc am eu bywydau, gan gerdded milltiroedd gyda'u tipyn eiddo. Dylem i gyd ddiolch am ein hamgylchiadau ni yma, ond ar yr un pryd cofiwn am yr holl bobl yn ein gwlad sy'n methu cael dau ben llinyn ynghyd. Oes, mae'r fath beth â thlodi ym Mhrydain yn yr 21ain ganrif.

Gwelsom newidiadau pwysig, wrth gwrs, ym myd crefydd. Bellach mae gwragedd yn cael eu hordeinio yn yr Eglwys Anglicanaidd a gallant fod yn esgobion hefyd erbyn hyn. Prysuraf i ddweud fy mod yn cytuno gant y cant â'r newid; dylai fod wedi digwydd flynyddoedd yn ôl.

Ond, yn dilyn y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y 18 mis diwethaf, gwrthodwyd y cynllun ar gyfer symud tuag at Eglwys Unedig yng Nghymru. Un maen tramgwydd oedd anghytundeb ynghylch yr Olyniaeth Apostolaidd.  Pa bryd tybed y daw'r dydd pan welwn yr Eglwys heb enwad, yn un yng Nghrist? A diwedd ar yr hyn a alwodd Emil Brunner yn warth ein rhaniadau. Pa werth sydd i gynnal yr Wythnos o Weddi am Undod Cristnogol yn flynyddol, os nad oes bron ddim byd yn newid?

***Gweddi: Arglwydd, ehanga 'mryd a gwared fi rhag culni o bob rhyw.***

***Pleser mawr yw cael llongyfarch ein colofnydd ffyddlon, y Parchedig John Bryn Jones, ar ddathlu pen-blwydd arbennig, yn 90 oed, ychydig wythnosau'n ôl.***

## O'r Gwyliedydd, 100 Mlynedd yn ôl

19 Ionawr 1915

**LLOC. PLYGAIN**

Mae Wesleaid y pentre hwn yn arfer a chynnal fore ddydd Nadolig ers llawer o flynyddoedd, nes y mae wedi cyrhaedd poblogrwydd. Yn blygeiniol iawn fore Nadolig diweddaf gorlenwyd y capel, a chafodd y gynulleidfa ei mawr foddhau tra yn gwrando ar ddwsin o garolau yn cael eu canu. Arweiniwyd y cyfarfod yn ddoeth a deheuig gan Mr. Thomas Jones, Penygarreg, arweinydd y gân capel Wesleaid, Lloc. Sylweddolwyd swm parchus yn y casgliad ariannaidd.

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Ardal Bathafarn

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymuniadau gorau i Siôn Hughes sydd wedi ei benodi'n athro yn Ysgol Llanrhaeadr. Llongyfarchiadau hefyd i Steffan Parry, Tŷ Ucha'r Llyn, ar gael ei urddo yn y wisg wen yn Eisteddfod Sir Gâr. Roeddem yn falch iawn o glywed bod Ifor Parry, Gwyddelwern, wedi ennill tlws 'Halen y Ddaear'. Mae Ifor yn weithgar iawn yn ei gymuned ac yn ffyddlon yng Nghapel Wesle Gwyddelwern lle mae'n gweithio'n galed i gadw'r fynwent yn daclus. Pob dymuniad da i Ifor ac i'w briod, Menna.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Margaret Evans sydd wedi colli brawd, sef John Hughes, Cefn Iwrch Bach, Bontuchel. Cydymdeimlwn hefyd â Gwyn, Llanbedr, a'r teulu sydd wedi colli chwaer a brawd-yng-nghyfraith.

**OEDFA FENDITHIOL**
Cawsom oedfa fendithiol iawn dan arweiniad Olwen Griffiths, yn fuan wedi refferendwm annibyniaeth yr Alban, pan ddewisodd Olwen emyn a darlleniad yn ymwneud â chyfraith Duw. Dewisodd rhai o'r lleill oedd yn bresennol emyn sydd yn gysylltiedig ag Edward Jones, Bathafarn, emyn plant ac emynau eraill sy'n bwysig i rai ohonom yn bersonol. Cyfeiliwyd gan Rhian Roberts.

**Y GYMDEITHAS**
Daeth criw da i'r cyfarfod cyntaf eleni. Cafwyd lluniaeth blasus a sgwrs gan Delyth Davies, ein Swyddog Datblygu, ynglŷn â 'Datblygu Ein Galwad'.



*Mrs. Mary Jones, ei mab Elved a'i merch Margaret*

**PREGETHWYR CYNORTHWYOL**
Hyfryd oedd cael croesawu'r gweinidogion a'r pregethwyr i Gyfarfod y Pregethwyr. Cafwyd sgwrs gan Delyth Davies a'r Parchedig James Patron Bell, ynglŷn ag adnoddau 'Roots', gyda chyfle i weld a phrynu llyfrau perthnasol. Gweinyddwyd y Cymun gan y Parchedig Jennie Hurd. Diolch i Gron Ellis, yr Ysgrifennydd, am y paratoadau. Cafwyd ymateb da i'r gynhadledd hon.

## Seion, Glyndyfrdwy

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymuniadau gorau i Mary Jones o Frondeg sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Mae'n aelod ffyddlon yn Seion, Glyndyfrdwy, gan ddal i baratoi bwrdd y cymun a dosbarthu'r Gwyliedydd.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**DATHLIAD DWBL**
Dathlodd Arthur ac Ann Jones, Llywenan, eu Priodas Ruddem ar 27 Gorffennaf – ddeugain mlynedd wedi iddynt briodi yma yn Ebeneser. Llongyfarchiadau i'r ddau a gobeithio y byddant yn mwynhau blynyddoedd eto yng nghwmni ei gilydd.

Ar Awst 25 priodwyd mab Arthur ac Ann, sef Dr Edward Thomas Jones, gyda Miss Brioni Somers. Gweinyddwyd y briodas yn Eglwys y Dyrchafael, Dalkey, Dulyn, gan y Tad Declan Gallagher. Andrea a Stephanie, chwiorydd y briodferch, oedd y morynion. Elfyn Rhys Jones oedd y gwas a Huw Meiriog Williams oedd y tywysydd, sef ffrindiau i Edward, a'i nai Tomos Dafydd Williams oedd y gwas bach. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r ddau, sy'n byw yn Dun Laoghaire.

**YSGOL**
Llongyfarchiadau i Mared Foulkes ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Dymunwn yn dda hefyd i Arwyn, brawd Mared, sydd wedi dechrau yn Ysgol David Hughes.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Jones ar ennill y wobr gyntaf am ganu emyn yn Eisteddfod Pobl Hŷn Môn yn ddiweddar. Mae'n braf clywed ei llais swynol ar nos Sul hefyd.

**DIOLCHGARWCH**
Nos Lun Diolchgarwch cawsom y fraint

# Golau sy'n llewyrchu yn y tywyllwch – Merched Methodistaidd ym Mhrydain

Cynhaliwyd cyfarfod yr Hydref ym Mathafarn eleni. Mwynhawyd y defosiwn a chyfraniad yr unawdwyr Megan Jessica a Dafydd. Ein siaradwr oedd y Dr. Rhiannon Lloyd sy'n gweithio fel llysgennad meddygol gan dreulio llawer o'i hamser dramor mewn ardaloedd lle gwelir anghydfod. Gellir darllen mwy am ei gwaith yn y gyfrol "Llwybr Gobaith" a olygwyd gan John Emyr ac a argraffwyd gan Wasg y Bwthyn.

Pan wahoddwyd Rhiannon i Rwanda i gynorthwyo gyda'r gwaith o gymodi yn dilyn yr hil laddiad erchyll, bu ond y dim iddi beidio â mynd; teimlai yn hollol annigonol. Gydag amser ac amynedd llwyddwyd i ddwyn perswâd ar bobl a fu'n ymladd i eistedd mewn cylch i wrando ar hanesion a gobeithion ei gilydd. Roedd Duw ar waith yng nghanol yr holl dywyllwch ac erchylltra. Wrth ddychwelyd i Gymru gwêl Rhiannon fflam y ffydd yn gwanhau. Heriodd bob un ohonom i geisio ailgynnau'r fflam o'r marwydos sydd yn mudlosgi yn ein capeli, fel



*Dafydd Jones, unawdydd*

bod grym a gobaith cariad Crist i'w weld ar waith unwaith eto yng Nghymru.

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

o groesawu'r Parchedig Jennie Hurd atom am y tro cyntaf. Diolch o galon iddi. Yn gwmni iddi daeth Cony; dymunwn yn dda i Cony ar ei hymweliad â Chymru ac wrth iddi barhau â'i hastudiaethau ar ôl dychwelyd i Chile.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Pendref, Dinbych

**FESTRI FAWR**
Mae'r festri ar ei newydd wedd. Ar ôl wythnosau o drwsio a phaentio, gosod carped, seddau newydd a phulpud, mae'r festri bellach yn cael ei defnyddio i gynnal gwasanaethau tra bo atgyweirio yn mynd ymlaen yn y capel. Diolch i bawb am eu gwaith.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ac roedd yn gyfarfod ffrwythlon.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Undebol Dinbych ym Mhendref ar 2 Hydref gyda'r Parchedig Thomas Evans-Williams yn pregethu. Cyfarfod bendithiol iawn.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Dathlodd Mrs Ann Edwards ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddi ar gyrraedd y garreg filltir hon.

**BRYSIWCH WELLA**
Cofion at Mrs Elinor Jones sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**TŶ CAPEL**
Mae Mrs. Ann Edwards yn gadael Tŷ Capel ar ôl 23 o flynyddoedd. Hwyl fawr iddi yn ei chartref newydd ym Mythynnod Wynnes Parc. Diolch am ofalu am y capel dros y blynyddoedd.

*Gohebyddion – Mary Jones a Rhiannon Rogers*

## Ebeneser, Eglwysbach

**ER COF AM MRS ELIZABETH DAVIES**
Bu farw Mrs Elizabeth Davies ar Awst 23 eleni a hithau'n 100 oed. Yn wreiddiol o Lan Conwy, daeth i fyw i Eglwysbach ar ôl ei phriodas â'r diweddar Hugh Lloyd Davies. Bu'n aelod ffyddlon o gapel Ty'n y Celyn, Glan Conwy, ac yn athrawes Ysgol Sul a blaenor. Yna daeth yn aelod yn Ebeneser. Cynhaliwyd ei hangladd o dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett gyda chymorth y Parchedig R. Ifor Jones. Rhoddwyd teyrngedau gan y Parchedig Arglwydd Roger Roberts a'r Parchedig Glenys Gough-Hughes.

**CYFARFOD DIOLCHGARWCH**
Braf oedd gweld y festri'n llawn ar gyfer ein gwasanaeth Diolchgarwch. Pregethwyd gan ein gweinidog, y Parchedig Philip Barnett a'r organydd oedd Mrs Diana Hughes. Diolch i Deryl a Wil am addurno a glanhau'r festri.

**CYFARCHION**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwyneth Roberts.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Eglwys Unedig Colwyn

**BEDYDD**
Ar 21 Medi, bedyddiwyd Isabel Efa, merch fach Gwennan a Daniel, Hen Golwyn, chwaer fach Iolo ac wyres i



Gwen ac Arfon, Helen a Dilwyn. Gweinyddwyd y sacrament o fedydd gan y Parchedig R Ifor Jones. Dilwyn, taid Isabel Efa, oedd wrth yr organ. Dymunwn bob bendith i'r teulu oll.

**PEN-BLWYDD**
Llongyfarchiadau gwresog i Miss Gwenllian Evans ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**CYNGERDD CAROLAU**
**Bydd y Cyngerdd Carolau blynyddol yn cael ei gynnal yn Horeb am 7pm ar Ragfyr 4ydd, gyda'r elw'n mynd tuag at Tŷ Gobaith a Hosbis Dewi Sant. Mins peis i ddilyn. Dewch yn llu.**

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## St Paul, Aberystwyth

**ER COF AM MAIR DAVIES**
Bu farw Mrs Mair Davies, gweddw'r diweddar Mr Emrys Davies, ar 20 Hydref 2014 yn 82 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at y teulu i gyd.

**CYFARFOD ARDAL**
Yn ein Cyfarfod Ardal ar 20 Hydref eleni cawsom sgwrs ddiddorol gan Delyth Wyn Davies, Swyddog Dysgu a Datblygu Synod Cymru gydag awgrymiadau ac arweiniad wrth inni ystyried datblygu Dysgu a Gofalu o fewn *Ein Galwad.* Diolch, Delyth, am ddod i gwrdd â ni yn Aberystwyth.

**LLONGYFARCHIADAU**
Rydym yn falch iawn fod ein gweinidog, y Parchedig James Patron, wedi'i ethol yn Gadeirydd Menter Gobaith Gogledd Ceredigion. Sefydlwyd y Fenter yn 2010 gyda'r bwriad o gyflwyno neges Efengyl Iesu Grist i blant ac ieuenctid mewn cydweithrediad ag eglwysi, ysgolion a chymunedau lleol.

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL UNDEB BEDYDDWYR CYMRU**
Unwaith y mis rydym yn cyd-addoli gydag aelodau Bethel, capel y Bedyddwyr Cymraeg yn Aberystwyth. Yn ein gwasanaethau ym Methel rydym i gyd wedi cael ein hysbrydoli gan y Parchedig Judith Morris, sydd wedi cyfoethogi ein bywyd Cristnogol. Yn awr mae hi wedi'i phenodi i swydd bwysig Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru a bydd yn gadael Bethel yn y flwyddyn newydd. Rydym yn ei llongyfarch yn ddiffuant iawn ar ei swydd newydd ond byddwn yn colli ei chwmni a'i harweiniad yn ein gwasanaethau.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Ebeneser, Treuddyn

**CROESAWU AELOD**
Nos Sul, Tachwedd 2ail croesawyd aelod newydd yn Ebeneser, sef Mrs Glenys Davies sydd bellach yn byw yn Eryrys. Roedd y gwasanaeth bendithiol o dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd a'r Parchedig Marc Morgan.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Mrs Mavis Williams, Mr Ron Griffiths, Miss Margaret Jones, Mr Norman Roberts a phawb sydd mewn gwaeledd. Meddyliwn hefyd am Mrs Gwyneth Jones sydd wedi symud i gartref preswyl.

**DIOLCH I'N PREGETHWYR**
Diolch i'r Parchedig Robert Parry am ofalu am y Rali ddwyieithog a'n Cyfarfod Pregethu eleni. Y Parchedig Marc Morgan a arweiniodd ein hoedfa Diolchgarwch a chawsom wasanaeth bendithiol iawn. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu undebol y fro eleni ym Methel, Rhiw Iâl, Llanarmon o dan arweiniad Ruth Evans a'r organydd oedd Mr Noel Parry. Gwnaed casgliad er budd Ambiwlans Awyr Cymru.

**Y GYMDEITHAS**
Cawsom nosweithiau arbennig a hapus iawn yn y Gymdeithas a bu ein harwerthiant a'n te prynhawn yn llwyddiannus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at y gwasanaeth carolau o dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd. Diolch yn fawr iddi am ei gofal.

*Gohebydd - Maldwyn Roberts*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Ebeneser, Dolgellau


**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Anona Roberts, Arenig, a gollodd ei thad yn ddiweddar. Hefyd Mrs Mary Davies, Westcroft, sydd wedi colli ei chwaer.

**GWELLA**
Da gweld Mr a Mrs Handley wedi gwella ar ôl anffawd gyda'r car.

**TAITH Y CAPEL**
Ar Fedi'r 20fed aeth dros ugain o aelodau a ffrindiau ar daith ar y bws o Ddolgellau i Gaer ac yna ar y Gamlas lle mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog a chwmnïaeth hyfryd. Diolchwn i'r Chwaer Eluned Williams am drefnu taith bleserus iawn.

*Gohebydd - Gwyneth Meredith*

## Ebeneser, Caernarfon


*Ebeneser, Caernarfon – Diolchgarwch*

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn falch iawn fod **Betty Pritchard** yn ymgryfhau yn dilyn llawdriniaeth. Croeso'n ôl i'r oedfaon i **Mary Christine Jones –** falch eich bod yn well. Pob dymuniad da i **Tom Glyn Griffiths** a **Katie Jones**, sydd wedi cael dod adref o'r ysbyty; ac anfonwn ein cofion at **Helena Edwards**, gan ddymuno gwellhad i'w phriod Owie. Dymuniadau gorau hefyd i **Mati Jones a Ceinwen Parry** sydd wedi'u penodi ar y Cyngor Eglwys.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchwn **Arfon a Mair Roberts** ar eu Priodas Ddiemwnt. Llongyfarchiadau i **Manon a Deiniol Jones** ar enedigaeth Ifan Llewelyn; hefyd i gyfnither Manon, sef **Ilid Hughes, a'i phriod Dyfed**, ar enedigaeth Gethin Emlyn, brawd bach i Elis a Non. Pob bendith i **Gwenno a John Howard Hughes** – Gwenno yn fodryb i Manon ac Ilid – ar ddathlu eu priodas aur.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Gŵyl Ddiolchgarwch ar 19 Hydref. Cymerwyd rhan gan **Megan Roberts, Carol Davis, Gwenllian Roberts, Buddug Jones, Mati Jones, Glenys Williams, Myfi Powell Jones, Catrin Jones, Henry Francis, Huw Hughes, Caio Parry, Alis a Nel.** Y thema oedd 'A gefaist ddigon o fwyd y flwyddyn hon...cofia mai Duw sydd yn rhoi i ni'. Derbyniwyd rhoddion ar gyfer y Banc Bwyd. Hyfryd oedd cael cwmni'r Diacon Stephen Roe. Yr organydd oedd Eira Owain.

*Gohebydd – Branwen Edwards*

# NA I'R NA-DOLIG


gan
Dewi Rhys

Yn anffodus, mae'n rhaid imi gyfaddef nad wyf yn hoff o'r busnes 'dolig 'ma – erioed wedi bod.

Pan oeddwn yn blentyn, er bod y cartref yn llawn o awyrgylch, arogl a naws y Nadolig, roedd y paratoadau, y trefnu a'r newid byd am bythefnos neu fwy yn fy nhaflu oddi ar fy echel. Cael ar ddeall ei bod yn bwysig ymweld â theulu a ffrindiau, pobl yr oeddwn yn ymweld â nhw yn ddigon aml beth bynnag. Y gwahaniaeth oedd ein bod yn aros yn hirach yn y tŷ, a'r oedolion yn sgwrsio am bethau diflas nad oedd o unrhyw ddiddordeb i mi. Rhaid oedd tacluso pobman a symud dodrefn o gwmpas er mwyn gwneud lle i ymwelwyr, hefyd rhaid oedd bwyta 'dates' a chnau mawr caled oedd ddim yn apelio o gwbl at fachgen ifanc.

Nid oedd petha'n gwella ar y diwrnod chwaith. Codi'n gynnar a chael brecwast anferth – i be? A ninnau'n mynd i gladdu gwledd mewn ychydig oriau! Yna, agor anrhegion, oedd yn gallu bod yn siom. A finnau newydd ddathlu fy mhen-blwydd, naw diwrnod yn gynharach, roeddwn yn perthyn i'r grŵp un anrheg y flwyddyn!

Flynyddoedd yn ddiweddarach nid oedd amser i ddathlu neu baratoi ar gyfer y Nadolig oherwydd natur fy ngwaith. Byddwn ran amla' yn gyrru o Gaerdydd ar noswyl 'dolig, treulio'r diwrnod gartref ac yna gyrru nôl ar ddydd San Steffan; ac os oeddwn yn ymddangos mewn pantomeim rhaid oedd mynd nôl i Bontypridd noson 'dolig ar gyfer sioe pnawn y diwrnod canlynol. Y dyddiau yma treuliaf y rhan fwya' o fy amser yn fy nghynefin yng nghanol teulu, ffrindiau a phobl yr wyf wedi eu hadnabod ers cyn co'. Cartrefol tu hwnt ar yr wyneb ond wrth i'r Nadolig agosáu mi fyddaf ar bigau'r drain yn ewyllysio i'r cyfnod fynd heibio.

Mae a wnelo hyn â'r agwedd fasnachol, faterol sy'n boddi'r gwir Nadolig. Bydd yna gymdeithasu brwd a phobl yn gwario'n ofer ac yn mynd dros ben llestri gyda gweithgareddau afreolus a swnllyd. Dyma'r adeg mae damweiniau yn digwydd a theuluoedd adref dan straen yn ceisio ymdopi â'r ŵyl a'i disgwyliadau. Dengys ffigyrau fod nifer o achosion o deuluoedd yn ffraeo a hollti yr adeg yma. Nid fel hyn y mae i fod 'does bosib?

Yn ôl y ffigyrau hefyd, mae canran eitha' sylweddol yn ansicr pam maent yn dathlu Nadolig heb sôn am wybod beth a ddigwyddodd adeg y Pasg, y Sulgwyn ac yn y blaen.

Fel aelod annibynnol o banel mabwysiadu Gwynedd a Môn byddaf yn dod ar draws gwaith papur am rieni sy'n ceisio mabwysiadu neu yn gorfod rhoi eu plant i ffwrdd a bydd y rhan fwyaf yn mynegi eu bod yn dathlu Nadolig a Pasg ond byth yn mynychu gwasanaeth er mwyn eu dathlu – nid yw y datganiad yna yn gwneud unrhyw synnwyr yn fy marn i.

Mi fyddai'n hoff o wasanaeth bore Nadolig a gwasanaeth Nadolig y plant: mae yna deimlad arbennig yno a thawelwch meddwl yn dod drostaf i gyferbynnu â'r rhialtwch dibwrpas sydd o'n cwmpas.

Beth bynnag, Nadolig dedwydd i bawb.

# Ni ddylem ofni newid

gan Gwyn Elfyn

Sawl gwaith y mae dyn wedi clywed y geiriau 'Nid yw'n gwneud gwahaniaeth i neb beth rwy'n ei gredu!' Tybed?

Pan adewais i Bobol y Cwm, roedd fy ffrindiau agosaf yn fy ngyrru i un o ddau gyfeiriad – gwleidyddiaeth neu'r weinidogaeth. Wrth ystyried cymryd rôl arweinydd yn eglwys Capel Seion, Drefach, roedd y sylw am y weinidogaeth a ddaeth oddi wrth fy nghydweithwyr yn dod yn ôl i mi drwy'r amser. Dwi erioed wedi ceisio cuddio fy ffydd na 'nghred ac efallai fod eu sylw yn profi fod yr hyn mae dyn yn ei gredu yn gadael ei ôl ar y rhai rydym yn troi yn eu mysg. Hynny yw, mae beth rydym yn ei gredu a'r modd rydym yn gweithredu yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r gymdeithas o'n cwmpas, er da neu ddrwg.


Mae Pobol y Cwm yn dathlu 40 mlynedd eleni ac rwyf yn dymuno'n dda i'r criw i gyd yn eu dathliadau, ond mae cyfnod o newidiadau wedi ei orfodi ar S4C. Yn yr un modd, rhaid i ninnau fel eglwysi Cymru, o bob enwad, edrych arnom ein hunain ac ystyried newidiadau er mwyn sicrhau dyfodol Cristnogol i'r cenedlaethau sydd i ddod.

Rydym mor barod oddi fewn i'n capeli i feio'r byd tu allan am ein ffaeleddau ac rwy'n cydnabod fod dylanwad bydol, lle nad yw Crist yn cyfrif fawr ddim, yn gryf. Ond rhaid i ninnau fod yn barod i symud er mwyn cadw'n flaengar. Rydw i wedi dysgu llawer yn y ddwy flynedd ers cychwyn fel arweinydd eglwys, ac rwy'n dal i ddysgu. I fod ychydig yn wamal, rwyf wedi dysgu fod 90% o gynulleidfaoedd Cymru yn eistedd tua chefn y capel! Dysgais hefyd nad yw pobl wedi anghofio Denzil!

Ond, o ddifrif, mae'n amlwg fod cynulleidfaoedd nifer o eglwysi yn heneiddio'n gyflym iawn; mae yna anfodlonrwydd i uno mewn addoliad; mae rhai eglwysi yn fodlon heb weinidog nac arweinydd; mae yna eglwysi lle mae traddodiad wedi troi'n fynwent iddynt; mae ambell i gynulleidfa ofn gwenu heb sôn am chwerthin mewn oedfa – er mai gennym ni y mae'r newyddion da!

Fyddwn i byth yn meiddio bychanu ymdrechion y 'ddau neu dri' sy'n gweithio mor galed i gynnal yr achos mewn cynifer o gapeli yng Nghymru, ond mae yn fy mhoeni fod cynifer ofn unrhyw newid. Darlun digon tywyll rydw i'n ei greu, ond darlun o realiti.

Oes gobaith gwyrdroi y darlun yma? Ddim heb barodrwydd i newid ac addasu. Does dim o'i le mewn eglwysi yn dod at ei gilydd – un Sul y mis, dyweder – fel bod y gynulleidfa'n gryfach ac yn fwy tebygol o ddenu pobl iau. Mae bod heb weinidog nac arweinydd yn golygu nad oes cyfrifoldeb ar neb i greu gweithgareddau i ysgogi aelodaeth newydd. Dylai eglwys ystyried yn ddwys a ydyw yn fodlon cyfarfod o Sul i Sul a dirywio'n naturiol. Beth am y genhedlaeth nesaf? Os yw eglwys bob amser wedi cyfarfod ar amser penodol, mewn ffurf benodol a chynnal oedfa mewn trefn benodol, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu mai dyna'r ffordd orau i symud ymlaen erbyn hyn. Rhaid i ni fod yn barod i arfarnu ein hunain – peidied neb â bod ofn newid trefn neu



*Gwyn Elfyn*

amser neu ddull er mwyn cadw eglwys Iesu Grist yn fyw. Cadw neges Crist yn fyw yw ein blaenoriaeth i gyd ar ddiwedd y dydd.

Mae yna genhadon da a gweithwyr yn y winllan yng Nghymru sydd yn llafurio'n galed i ledaenu'r efengyl a chadw ein heglwysi yn hyfyw. Rydw i'n ffodus bod gennym gymdeithas dda yn ein capel ni a dyna ddylai pob eglwys fod, cymdeithas fywiog, teulu gweithgar yn ffyddlon i'w gilydd ac i Grist. Mae dylanwad eglwysi o'r fath ar ein cymdeithas yn parhau. Mae yna weithwyr ieuenctid y mae gen i barch mawr at eu gwaith; mae yna weinidogion ac arweinyddion sydd yn cynnig cynlluniau arloesol; mae yna eglwysi yn awchu am gael symud yn eu blaenau a dyma lle mae ein gobaith ar gyfer y dyfodol. Rhaid i ni i gyd fod yn fwy parod i gydweithio, i gyd-addoli ac i fod yn gefn i'n gilydd. Rydw i'n ddiolchgar i'm heglwys am y cyfle i arwain, yn y cyfnod hwn o newid. Ni ddylem ofni newid – cofiwn mai chwyldroadwr oedd yr Arglwydd Iesu Grist.

Eisteddai rhes hir o flaenoriaid
fel tae nhw ar fin troi'n wenoliaid
Pob un mewn siwt ddu
A'u pen yn eu plu
Os uno! – fydd na job i'r cre'duriaid?

*–RJ*

# O'R PEN YMA



gan Angharad Tomos

Gyda'r doethion y mae fy meddyliau y tro hwn. Mae llawer ohonom yn teithio dros y Nadolig, ond mewn amodau dipyn mwy cyfforddus na'r doethion! Efallai ein bod yn mynd ar daith go hir i gwrdd ag aelodau'r teulu dros yr ŵyl, yn gorfod pacio bag go helaeth, a chofio'r anrhegion! Taith mewn trên neu fws, neu daith mewn car. Efallai mai dim ond taith i lawr y lôn ar ddydd Nadolig fydd hi, er mwyn cael cinio go lew a chwmni. Ond waeth pa fath o daith yw hi, mae'r teimladau yn go debyg i rai y doethion. Cymysgedd o deimladau – edrych ymlaen, ond gyda pheth pryder. Cynnwrf gwneud rhywbeth gwahanol, tra ar yr un pryd yn gofidio gadael y cyfarwydd. Dyfalu beth sydd o'n blaenau, gan obeithio y bydd croeso cynnes yr ochr arall. Mwynhau cwmni eraill, ond yn gwybod y byddwn yn falch o ddod yn ôl 'adref'.

Efallai y bydd gennym anrheg ymysg ein trugareddau, ac mae'n bosibl ein bod yn pryderu yn ei gylch. Ydi o'r anrheg cywir? Ydi o'n ddigon da? Fydd o'n peri pleser ac yn cael ei werthfawrogi? Mae'n ddigon posib mai dyna sut y teimlai'r Doethion.

Fydd yna'r un seren yn ein harwain ni ar hyd yr A470 neu ar un o'r rheilffyrdd. Fydd dim rhamant teithio ar gamel dros dywod yn ystod y nos. Ond mi garwn feddwl fod yna Un yn gofalu amdanom, ac yn ein harwain tua pen ein taith efo cynhesrwydd cariad. Dydi ddim cymaint o ots ganddo Fo am ansawdd ein hanrheg. Mae'n ddigon iddo Ef ein bod *eisiau* rhoi, ac yn fodlon rhannu amser gyda'n gilydd.

Y peth pwysig iddo Fo y Dolig hwn, fel gyda pob Dolig, yw fod pobl yn fodlon rhannu amser gyda'i gilydd dros yr ŵyl. Efallai nad ydym wedi gweld ein ffrindiau na'n teulu ers amser maith, ond dros y Nadolig, gwnawn ymdrech arbennig i ddod ynghyd. Ac wrth ddwyn yr ŵyl i gof tua adeg y Calan, beth fydd yn wirioneddol bwysig am yr atgof? Nid ansawdd y twrci, neu flas y pwdin, nid hyd yn oed yr anrheg a gawsom neu a roddwyd.

Na, yr atgof fydd yn aros yw yr amser a fwynhawyd yng nghwmni ein gilydd. Fe bery hwnnw wedi i bopeth arall ddarfod.

Blwyddyn Newydd Dda i chi.


# PLWM PWDIN Y PADRE (Stori Wir)

gan y diweddar Barchedig Ronald Griffith

Blwyddyn o ryfela chwerw oedd 1944, a phawb drwy'r byd yn holi'n bryderus pa bryd y terfynai'r rhyfel, ac y câi pawb ohonom ddychwelyd i'n cynefin. Ychydig o wythnosau cyn y Nadolig, yr oeddwn i yn gwasanaethu fel Padre gyda brigâd a oedd wedi glanio yn Athen, prifddinas gwlad Groeg, i ryddhau'r wlad o afael milwyr Hitler. Tybiasom mai gwaith hawdd a oedd yn ein haros, gan fod yr Ellmyn eisoes ar eu ffordd allan.

Cafwyd pob argoel ar y dechrau ein bod wedi dyfod i theatr ysgafn o'r rhyfel ac yr arbedid ni rhag gwasanaeth llinell flaen yn yr Eidal y daethom ohoni. Brwd iawn oedd croeso dineswyr Athen a'r pentrefi cylchynol.

Eithr yn araf, diflannodd cyfeillgarwch llu mawr o'r trigolion a daethom ninnau i sylweddoli bod gwlad Groeg yn drwm dan ddylanwad Comiwnyddiaeth a bod byddin 'partisan' yr ELAS â'i gafael yn dynn ar y mwyafrif o'r dynion. Dyma brofiad newydd i ni. Pwy oedd ein ffrindiau, a phwy ein gelynion? Nid oedd ddichon penderfynu. Yn y cyfamser, roedd anghydfod peryglus yn hollti trigolion gwlad Groeg yn ddwy wrthblaid ffyrnig, a ninnau, Brydeinwyr, wedi ein dal yng nghanol yr helynt ac mewn sefyllfa atgas dros ben.



Rhyw wythnos cyn y Nadolig, torrodd yr argae – aeth yn rhyfel cartrefol gwyllt ar strydoedd Athen, a bu ymladd gwaedlyd. Yn anochel, tynnwyd ein lluoedd ninnau i'r brwydro, a dyna agor un o benodau tristaf y rhyfel i gyd. Ond nid af ar ôl y stori honno yn awr chwaith.

Ar y pryd, gwasanaethwn mewn ysbyty a sefydlwyd gennym rai milltiroedd y tu allan i Athen, wrth odre mynydd Pentelikon (lle cafwyd marmor i adeiladu y deml Parthenon) a gerllaw mangre enwog Marathon. Parodd y saethu ar strydoedd Athen a'r wlad gyfagos fod ein hysbyty'n llawn nid yn unig o'n clwyfedigion ni ein hunain, ond hefyd o hogiau Groeg - byddin ELAS fel y'u gelwid.

Fel yr elai'r brwydro ymlaen, daethom i sylweddoli bod ELAS yn llawer grymusach nag y breuddwydiodd neb ac nad oedd gan Brydain ddigon o unedau yn y wlad i gadw gwastrodaeth arnynt. I wneud pethau'n waeth, gwyddem hefyd fod amgylchiadau'r rhyfel yn Ffrainc ac yn yr Eidal yn gyfryw na ellid hepgor unedau ychwanegol i'n hatgyfnerthu.

Gan hynny, roedd ein Cadfridog dan orfod i grynhoi adnoddau ei fyddin yn ninas Athen ei hun ac ildio siawns y rhai ohonom a oedd o'r tu allan i'r ddinas i drugaredd y Comiwnyddion. Nid oedd dim o'r help am hynny, ond teimlem i gyd, wedi dwy flynedd o ymrafael blin ond buddugoliaethus yn erbyn milwyr Rommel, fod y peth yn ddifrifol iawn.

Yn yr awyrgylch hwn y dynesodd Nadolig 1944 atom. Ddeuddydd cyn yr ŵyl, roedd ein hysbyty yng nghanol maes y brwydro. Ysgydwyd yr adeiladau nos a dydd gan ffrwydradau a chryndodau'r drin. Nid oedd ein Cadfridog yn Athen wedi colli ei afael arnom yn llwyr, ac o bryd i'w gilydd deuai cerbyd arfog trwodd atom, a chawsom felly ychydig lythyrau Nadolig a phapurau newyddion. Digalon i'r eithaf ydoedd cynnwys y papurau. Roedd ymgyrch beryglus gan y Natsïaid yn Ffrainc yn bygwth llwyddo. Disgynnai cawodydd dinistriol y V.2 ar Lundain.

Onid oedd 1944 wedi ei haddo i ni fel blwyddyn y fuddugoliaeth derfynol? A dyma ni mewn heldrin newydd yng ngwlad Groeg a heb argoel o gwbl y caem fynd adref. Ymddangosai heddwch yn bellach nag erioed, ac ychydig o galon a feddai neb ohonom i fyfyrio ar neges y Nadolig.

Y diwrnod o flaen y Nadolig ei hun, duodd ein hamgylchiadau yn ddirfawr. Llwyr feddiannodd y gwrthryfelwyr y rhan o'r wlad yr oeddem ynddi, a daeth rhai o'u swyddogion atom i'n hysbysu ein bod yn garcharorion. A dweud y lleiaf, roedd llawer o bryder yn ein calonnau. Beth nesaf? Am ba hyd? Ai am ychydig ddyddiau'n unig, ynteu dros weddill cyfnod y rhyfel? Gan y gwyddem mai o Foscow y deuai'r cyfarwyddyd i'r gwrthryfelwyr, dechreuasom holi ai Siberia a fyddai ein diwedd? A heno, bydd plant Cymru yn hongian eu hosanau ac yn disgwyl Santa Clôs!

Yng nghanol ein ffwdan i gyd, meddyliais am gyfeillion arbennig inni ymhlith y Groegiaid yn y pentref yr oedd ein hysbyty ynddo. Roedd rhai ohonynt yn Brotestaniaid ac wedi arfer dod i uno yn ein gwasanaethau yng nghapel yr ysbyty ar nos Sul. Roeddem ninnau wedi bod droeon ar eu haelwydydd yn mwynhau difyrrwch teuluol ac yn canu emynau o amgylch y piano. Dyrys a thlawd oedd eu hamgylchiadau, a'u bwyd yn brin ryfeddol. Buasent wedi trengi oni bai am yr ychydig eifr a roddai iddynt laeth a menyn a chaws. Er hynny, roeddent yn bobl llawen iawn, ac roeddent wedi rhoddi teitl digrif ar y grŵp o ryw hanner dwsin ohonom a arferai fynychu eu cartrefi, sef 'Stinkers'. Ni chredaf ein bod wedi teilyngu'r fath lysenw yn llythrennol, ond parai gryn lawer o hwyl yn ein plith.

Ceisiem ninnau ychwanegu at eu lwfans bwyd o dro i dro yn ôl mesur ein mentr i dorri rheolau caeth y fyddin. Rhaid cofio bod ein bwyd ninnau hefyd erbyn hyn wedi mynd yn brin iawn.

Beth am eu siawns yn awr a ninnau wedi ein cau i mewn a heb fedru cyfathrachu â hwy na'u helpu mewn unrhyw fodd? I wneud pethau'n waeth, sibrydid eu bod hwythau hefyd yn aelodau llechwraidd o ELAS. Anodd, yn wir, oedd credu hynny am rai a fu mor garedig wrthym, ond waeth cyfaddef, roedd amheuaeth du yn ein calonnau am eu dilysrwydd pan wawriodd bore'r Nadolig.

Teimlai pawb ohonom mai dyma'r Nadolig mwyaf dinadolig yn ein hanes i gyd. Nid rhaid dweud mai testun amlycaf pob sgwrs ydoedd beth oedd yn mynd i ddigwydd i ni nesaf. Gwir fod angen pob un ohonom yn yr ysbyty i edrych ar ôI y clwyfedigion, ond deuai sibrydion y cyrchid rhai ohonom, er hynny, i bencadlys y gelyn fel gwystlon.

Ar ôl bwyd canol-dydd (wrth gwrs, ni chawsom ginio Nadolig), daeth negesydd i fy swyddfa i ddweud bod ar y Cyrnol eisiau gair hefo mi. Pan euthum ato, roedd ym mhresenoldeb un o swyddogion ELAS. Edrychai hwnnw'n ffyrnig mewn lifrai gwyrddlas, a beltiau o fwledi yn torchi am ei gorff. Trawodd y syniad i'm meddwl ar unwaith mai myfi oedd y cyntaf i gael fy nghymryd fel ' hostage'. Diflas o beth, yn wir! Ond pa help bellach?

Curodd fy nghalon beth yn gyflymach wrth feddwl am fyw mewn ogof yn un o gilfachau bryniau Attica heb neb o'm cymrodyr gerllaw. "Am rodd Nadolig!" meddyliais.

Cefais fy nghyflwyno i'r swyddog dieithr gan y Cyrnol, a dywedodd hwnnw mewn Saesneg carbwl fod ganddo barsel i mi, a chyfeiriodd at becyn mewn papur brown ar y bwrdd. Parsel! I mi !- Gan un o arweinwyr ELAS! Codais ef i'm llaw ac edrychais arno'n hurt, gan fy sicrhau fy hun fod rhyw gamgymeriad mawr wedi digwydd yn rhywle. Beth yn y byd mawr a allai fod ynddo, a phwy ar y ddaear oedd wedi ei anfon? Ar y cychwyn, roeddwn yn amharod i gymryd meddiant ohono rhag ofn mai bŵbi ydoedd. Sibrydais fy amheuaeth wrth y Cyrnol, ond ysgwyd ei ben a wnâi ef a sisial rhywbeth am 'Geneva Convention' a cheisio fy sicrhau y dylai'r parsel fod yn hollol ddiniwed.

Euthum â'r parsel i'm swyddfa a'i osod yn ddefosiynol ar y bwrdd yno. Wrth graffu arno, cefais fod ysgrifen yn dweud, - "To Capt. Griffith and the Stinkers. Merry Xmas." Oddi wrth ein cyfeillion nos Sul! A ninnau wedi dechrau amau mai ein gelynion oeddent. Cyn ei agor, euthum i chwilio am eraill o'r 'Stinkers' a chael hyd i bedwar ohonynt. Gyda'n gilydd, agorasom y parsel a beth oedd ynddo ond clamp o blwm pwdin, ymron yn ddu ei liw. Ni allem gredu ein llygaid! Y fath anrheg Nadolig heb ei disgwyl! A'r fath aberth a oedd o'r tu ôl iddi, canys gwyddem yn rhy dda beth a gostiodd hyn i'n cyfeillion ynghanol eu prinder bwyd.

Ond hyd yn oed pe mynasem ei ddychwelyd, roedd hynny allan o'r cwestiwn yn yr amgylchiadau, a deuthum i'r casgliad mai'r unig beth y gellid ei wneud ag ef oedd ei fwyta yn y fan a'r lle, heb adael i neb arall yn yr ysbyty wybod dim amdano! Mae'n siŵr mai golwg ddigrif oedd arnom yn bump o filwyr rheibus yn ymosod ar y truan pwdin heb na phlât na sôs yn ein meddiant!

Ond cytunai pawb ein bod wedi cael gwledd o'r gorau heb ei disgwyl. Ni wn hyd heddiw beth oedd ynddo. Mae'n bur debyg fy mod wedi bwyta gwell pwdin o ran ei ddeunydd ar lawer Nadolig yn fy hanes. Ond hwnnw oedd y pwdin mwyaf arbennig a fwyteais erioed. Tystiai i bybyrwch cyfeillgar ein ffrindiau oddi allan, a pharodd lawer o gywilydd yn fy nghalon am fod wedi dechrau amau eu dilysrwydd.

Daeth peth o ysbryd y Nadolig yn ôl i'm calon. Y Nadolig hwnnw, trwy gyfrwng plwm pwdin y cerddodd i'm meddwl y geiriau – "Tangnefedd ar y ddaear, i ddynion ewyllys da."

# Helo, Cony!

**Cafodd golygyddion y *Gwyliedydd* amser difyr iawn yn sgwrsio â Constanza Pulgar Bart (Cony), sydd wedi bod yn ymweld â Synod Cymru eleni. Mae Cony yn aelod o'r Eglwys Fethodistaidd yn Chile ac mae ganddi gysylltiadau â Phatagonia. Efallai y bydd rhai o'n darllenwyr yn cofio nain a taid Cony, sef Carris a Jose Pulgar, yn ymweld â ni yng Nghymru rai blynyddoedd yn ôl.**



***Gol:* Diolch am siarad â'r *Gwyliedydd,* Cony. Braf iawn cael dy groesawu, yr holl ffordd o Chile. Ble yn hollol rwyt ti'n byw?**

***Cony:*** Dinas Punta Arenas, yn ne Chile. Heb fod ymhell o Antarctica! Ond cefais fy ngeni yn Temuco.

***Gol:* Fedri di sôn ychydig wrthym ni am dy deulu?**

***Cony:*** Enw fy nhad yw Ronny Pulgar. Mae'n weinidog yn yr Eglwys Fethodistaidd, yn Punta Arenas. Fy mam yw Betty Bart ac mae hi'n gweithio fel ysgrifenyddes mewn ysbyty. Mae gen i un chwaer, Elizabeth, sy'n astudio er mwyn bod yn nyrs. Rydw innau'n astudio'r gyfraith.

***Gol:* Ac mae gennyt ti gysylltiad â Phatagonia?**

***Cony:*** Oes, roedd fy nain ar ochr fy nhad o Batagonia. Croesodd rhai o fy hynafiaid – Daniel Evans a Betsi Hughes – i'r Wladfa ar y Mimosa.

***Gol:* Am faint wyt ti'n aros yng Nghymru? Wyt ti'n mwynhau'r amser?**

***Cony:*** Chwe mis. Mi wnes i fynd i Gaerdydd am ddau fis, i ddysgu Cymraeg a Saesneg. Dwi'n hoffi Cymru ac mae'r diwylliant yn ddiddorol iawn. Heddiw es i efo'r Diacon Stephen ac Angela i weld Byd Mary Jones yn y Bala.

***Gol*: Alli di sôn tipyn wrthym ni am eich capel chi yn Punta Arenas, a'r Eglwys yn Chile? Ydi o'n debyg i'r capeli rwyt ti wedi bod ynddyn nhw yng Nghymru?**

***Cony:*** Yng Nghymru mae'r addoliad yn fwy traddodiadol a'r bobl yn dueddol o fod yn hŷn. Yn Chile mae pob oed efo'i gilydd. Yn ein capel ni, rydym yn cael Ysgol Sul yn y bore. Mae rhyw 30 i 40 o blant yn dod. Mae pobl o bob oed yn dod i'r Ysgol Sul, o fabanod i bobl oedrannus. Am 7pm rydym yn cael gwasanaeth, gyda rhyw 60 i 70 o bobl yn bresennol. Yn yr wythnos byddwn yn cyfarfod ar gyfer astudiaeth Feiblaidd a gwahanol weithgareddau.

***Gol:* A pha fath o gerddoriaeth sydd gennych yn y capel?**

***Cony:*** Mae gennym fand: drymiau, gitâr, piano a bango (offeryn tebyg i gitâr ond llai), a dau leisydd. Dwi'n chwarae'r drymiau!

***Gol:* Byddai'n braf cael eich clywed. Beth am y Nadolig, beth fyddwch chi'n ei wneud bryd hynny?**

***Cony:*** Byddwn yn cael cinio Nadolig ar 24 Rhagfyr a bydd cyflwyniad dramatig yn y capel, hefyd ar 24 Rhagfyr. Ond eleni byddaf i yn aros efo Bethan yn Llanelwy.

***Gol:* Beth yw dy obeithion at y dyfodol? Hoffet ti deithio i lefydd eraill hefyd?**

***Cony:*** Dwi'n gobeithio cwblhau cwrs saith mlynedd i fod yn gyfreithiwr. Hoffwn ymweld â Lloegr a'r Alban. Ond oherwydd y cysylltiadau teuluol, dod i Gymru oedd fy uchelgais. Mi wnaeth Jennie fy helpu efo'r trefniadau ac mae hi a ffrindiau eraill wedi fy nghroesawu i'w cartrefi.

***Gol:* Mae wedi bod yn ddiddorol iawn siarad efo ti, Cony. Pob hwyl i ti, a diolch am ddod atom i Gymru.**

***Cony:*** Diolch yn fawr. Diolch yn fawr iawn i bawb am y croeso.



*Ceri a'r Parchedig Patricia Grudging*

Bethel, Aberdyfi: Ar 12 Hydref 2014, derbyniwyd Ceri Jones yn gyflawn aelod yn yr Eglwys Fethodistaidd.



Diolchgarwch yn Ebeneser, Caernarfon – Catrin yn canu'r corn tenor.

# Tudalen y Plant



'Gorffwys wrth ffoi i'r Aifft', gan Nicholas Mynheer. (Y Casgliad Methodistaidd o Gelfyddyd Gyfoes). Ⓟ TMCP, defnyddiwyd gyda chaniatâd.

Dyma lun o Mair a Joseff a'r baban Iesu yng nghanol yr anialwch, ar y ffordd i'r Aifft. Ar ôl ymweliad y doethion, daeth angel at Joseff mewn breuddwyd a dweud wrtho am ffoi i'r Aifft gyda Mair a Iesu, am fod y brenin Herod yn chwilio am y baban i'w ladd. (Mathew 2:13-15). Yn y llun, maent yn gorffwys ar eu taith yng nghysgod coeden. Mae'r arlunydd yn dangos blodau ar y goeden ac o'i hamgylch. Roedd yn credu bod presenoldeb Iesu yn gwneud i bob man flodeuo.


## PARATOI AT Y NADOLIG

Os ydych chi eisiau addurno'r tŷ ar gyfer y Nadolig, mae llawer o bethau ar gael i'w prynu yn y siopau. Ond mae'n gallu bod yn fwy o hwyl gwneud eich addurn eich hun – wedyn fydd dim un arall yn unman yn union yr un fath!

### Addurn Cloch Nadolig

Mae hwn yn hawdd i'w wneud ond gofynnwch i oedolyn eich helpu i dorri efo siswrn.

1. Torrwch y siâp cloch allan. Rhowch y siâp ar ddarn o gerdyn a dilyn yr amlinell i wneud yr un siâp allan o gerdyn.
2. Addurnwch y gloch â secwins neu ddarnau o bapur pob lliw. Ysgrifennwch eich neges Nadolig eich hun arni.
3. Torrwch ddarnau o bapur lliwgar i wneud cadwyn bapur.
4. Gosodwch eich cloch ar y gadwyn bapur i'w rhoi i fyny.



### Cerdyn Nadolig Arbennig

Bydd arnoch angen:

- Darn o gerdyn du, tua 20 x 15cm
- Papur sidan
- Pensil
- Siswrn
- Glud
- Amlen, i anfon y cerdyn

1. Plygwch y cerdyn yn ei hanner.
2. Lluniwch siâp syml ar un ochr i'r cerdyn a thorrwch y siâp allan.
3. Rhowch ddarn o bapur sidan y tu mewn i'r cerdyn, ychydig bach yn fwy na'r siâp rydych wedi'i dorri allan. Efallai y gallech ddefnyddio mwy nag un lliw.
4. Gludiwch y papur sidan yn ofalus, y tu mewn i'r cerdyn, y tu ôl i'r siâp.
5. Gadewch iddo sychu, wedyn ysgrifennwch eich neges yn y cerdyn.